



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Rhaglen Dileu TB Cymru

Cyhoeddwyd 2017



# Contents

|  |    |
|--|----|
| Datganiad Cenhadaeth Llywodraeth Cymru | 1  |
| Ein Gweledigaeth                       | 2  |
| Sylfaen ein Cynllun                    | 3  |
| Gwerthoedd Craidd                      | 4  |
| Polisiau ac Amcanion                   | 6  |
| Y Dyfodol                              | 10 |

# Datganiad Cenhadaeth Llywodraeth Cymru

“Cymru sy'n rhydd o TB ar gyfer diwydiant ffermio iach, proffidiol a chynaliadwy”

Roedd fframwaith 2012 ar gyfer dileu TB buchol yn garreg filltir bwysig ar daith Cymru i ddileu'r clefyd. Erbyn hyn, mae'n amser ystyried y sefyllfa bresennol, pwyso a mesur ein llwyddiannau, dysgu gwersi a chyflwyno dull gweithredu newydd a fydd yn mynd â ni'n nes at ein nod o gael gwared yn llwyr ar TB yng Nghymru.

Rydym wedi gwneud cynnydd addawol hyd yn hyn, ac mae nifer yr achosion newydd o TB ar ei lefel isaf ers 12 mlynedd, ac mae dros 95% o fuchesi yn rhydd o TB.

Rydym yn awyddus i ddatblygu ar y llwyddiant hwn a chyflymu'r cynnydd drwy wella'r sylfaen dystiolaeth a gwella mesurau ymhellach. Mae'n rhaid i ni sicrhau bob amser ein bod yn canolbwyntio ar yr amcan hirdymor o ddileu TB.

Mae'n rhaid i'n dull o ddileu'r clefyd barhau i ganolbwyntio ar holl ffynonellau'r haint TB, gan gynnwys heintio rhwng gwartheg, bywyd gwyllt ac anifeiliaid eraill nad ydynt yn wartheg.

Bydd y rhaglen yn cynnwys mesurau cynhwysfawr ac ystyrion mewn cynllun cyflawni sy'n addasadwy ac yn hyblyg i newidiadau i'r sefyllfa o ran TB buchol yng Nghymru.

Mae profion blynyddol ar fuchesi yn parhau i nodi'r haint yn gynnar ac maent yn darparu tystiolaeth bwysig i ddangos pa mor wahanol yw sefyllfa'r clefyd ledled Cymru. O ganlyniad, bydd profion blynyddol ar fuchesi yn parhau i gael eu cynnal cyhyd ag y bo'u hangen.



Gwyddom fod lefelau'r clefyd yn amrywio ledled y wlad a bod yr hyn sy'n ysgogi'r clefyd yn amrywio.

Bydd y rhaglen hon yn cyflwyno dull rhanbarthol o ddileu TB. Byddwn yn diffinio categorïau o ardaloedd gwahanol, gan adlewyrchu'r mesurau sydd eu hangen i fynd i'r afael â sefyllfa wahanol y clefyd mewn ardaloedd gwahanol.

Byddwn yn gwella sefyllfa buchesi sydd wedi bod o dan gyfyngiadau TB ers amser hir drwy gyflwyno mesurau gwell. Bydd gan bob buches sydd wedi'i heintio â TB gynllun gweithredu pwrpasol, wedi'i ddatblygu gyda'r ffermwr a'i filfeddyg preifat. Bydd y cynlluniau gweithredu hyn yn cynnwys mesurau gofynnol i leihau'r haint a dileu'r clefyd cyn gynted â phosibl.

Hefyd, byddwn yn cyflwyno mesur newydd i gynyddu sylfaen wybodaeth a dealltwriaeth y diwydiant ffermio o'r materion a'r peryglon sy'n gysylltiedig â phrynu a gwerthu gwartheg. Mae cynlluniau masnachu seiliedig ar risg wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddileu TB mewn gwledydd eraill. Bydd ein rhaglen yn parhau i ddysgu gwersi gan eraill ac ailadrodd y cynlluniau mwyaf defnyddiol.

Dylai pob fferm ddilyn arferion da bob amser o safbwynt bioddiogelwch a hwsmonaeth, waeth a yw wedi dioddef achos o TB ai peidio. Mae bioddiogelwch yn allweddol bwysig i amddiffyn anifeiliaid yn erbyn TB buchol a chlefydau anifeiliaid difrifol eraill, ac mae'n bwysig bod ffermwyr yn gallu asesu eu risg. Byddwn ni'n gweithio gyda ffermwyr a'n partneriaid ac yn datblygu ein gwaith cynharach yn y maes hwn er mwyn datblygu un adnodd sgorio bioddiogelwch safonedig i'w ddefnyddio gan bob ffermwr er mwyn asesu lefelau bioddiogelwch ar eu ffermydd.

Bydd ymrwymiad a chydweithrediad cyson ein rhanddeiliaid a'n partneriaid yn allweddol bwysig i sicrhau canlyniad llwyddiannus a chyflawni ein nod o gael gwared ar TB yng Nghymru maes o law.

Byddwn yn ceisio cyflwyno polisïau gorfodol sy'n helpu'r diwydiant i'w amddiffyn ei hun rhag TB, gan weithio lle bynnag y bo modd gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig, gan nad yw'r clefyd hwn yn parchu ffiniau o unrhyw fath.

# Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth gyffredinol yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl a chymunedau Cymru a sicrhau ansawdd bywyd gwell ar gyfer ein cenedlaeth ein hunain a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Rhaglen Dileu TB yn cyfrannu at y weledigaeth hon drwy geisio lleihau TB, a'r effeithiau o safbwynt lles anifeiliaid a'r effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cysylltiedig, diogelu iechyd y cyhoedd a dileu'r clefyd, gan gyfrannu at broffidioldeb y diwydiant da byw.

Mae'r Rhaglen hon yn cefnogi ein hymrwymiad hirdymor i ddileu TB ac mae'n seiliedig ar egwyddor datblygu cynaliadwy bod atal yn well na gwella. Drwy ddileu TB rydym yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol:

- **Cymru lewyrchus** – mae TB yn parhau i greu costau economaidd-gymdeithasol sylweddol ar gyfer ffermwyr, y diwydiant ffermio yn ehangach, y gymuned wledig a threthdalwyr.
- **Cymru gydnerth** – byddai dileu TB yn arwain at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynnal sector da byw cynaliadwy.
- **Cymru iachach** – milhaint sy'n gallu effeithio ar famaliaid o bob math, gan gynnwys pobl, yw TB. Yn ogystal â'r manteision i iechyd anifeiliaid, mae dileu TB yn amddiffyn pobl yn erbyn TB.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – bydd agwedd benderfynol at ddileu TB a'r camau rheoli sy'n cael eu rhoi ar waith gennym yn rhoi sicrwydd i ddarpar bartneriaid masnachu.

Mae'r Rhaglen Dileu TB yn gweithredu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Pum Ffordd o Weithio drwy:

- fabwysiadu agwedd hirdymor at ddileu TB a fydd yn cyfrannu at sector da byw mwy llewyrchus a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- mynd i'r afael â TB yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl drwy adolygu'r clefyd yn gyson a chasglu a dadansoddi tystiolaeth ar sail yr egwyddor sylfaenol fod atal yn well na gwella
- integreiddio'r nodau llesiant ag amcanion y Rhaglen Dileu TB a sicrhau ei bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu
- cydweithio'n agos â Defra i ganfod atebion cyffredin a chynaliadwy, a chysylltu â gwledydd eraill i ganfod eu dull o ddileu TB
- cynnwys y diwydiant da byw yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt drwy weithio mewn partneriaeth ar lefel genedlaethol a lleol.







## Sylfaen ein Cynllun

Ein nod yw dileu TB buchol yng Nghymru. Ers 2008, rydym wedi bod â rhaglen dileu TB sy'n ceisio mynd i'r afael â'r holl ffynonellau heintio gan gynnwys gwartheg, anifeiliaid nad ydynt yn wartheg fel lamaod ac alpacaod, a bywyd gwyllt fel moch daear a cheirw. Mae elfennau gwahanol y rhaglen wedi'u cyflwyno mewn ffordd raddol, gynhwysfawr ac integredig er mwyn cynnwys yr holl agweddau ar atal y clefyd, rheoli'r perygl o'i drosglwyddo a rheoli achosion. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu rhywfaint o gynnydd tuag at gyflawni hyn, ac mae'r duedd wedi bod ar i lawr o ran achosion newydd o TB.

Nod prif elfennau'r rhaglen yw cyfyngu a lleihau'r perygl o wartheg yn lledaenu'r haint. Mae hyn yn cynnwys mesurau gwyliadwriaeth a rheoli sy'n ceisio nodi gwartheg sydd wedi'u

heintio mor gynnar â phosibl a lleihau'r perygl o ledaenu'r clefyd. Hyd at 2008, roedd amlder profion buchesi yn amrywio o brofion blynyddol i brofion pedair blynedd, ac roedd yn seiliedig ar gyfran y buchesi ym mhob plwyf a oedd wedi'u heintio yn y gorffennol. Yn ystod Archwiliad lechyd TB Cymru, a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2008 a mis Rhagfyr 2009, cafodd pob buches yng Nghymru ei phrofi er mwyn gwella ein dealltwriaeth o sefyllfa'r clefyd ledled y wlad. Daeth i'r amlwg bod y clefyd yn bresennol mewn ardaloedd lle'r oedd buchesi'n arfer cael eu profi unwaith bob pedair blynedd. Yn sgil canfyddiadau Arolwg lechyd TB Cymru, cyflwynwyd system profion TB flynyddol ar gyfer buchesi er mwyn sicrhau lefel uchel o wylidwriaeth.



Bydd y broses o ddatblygu a hyrwyddo arferion bioddiogelwch a hwsmonaeth gwell yn parhau i fod yn elfen allweddol o leihau'r perygl o heintio gan wartheg a bywyd gwyllt. Rydym wedi ceisio gwella bioddiogelwch drwy gynnig cyngor i ffermwyr ar reoli a lleihau'r peryglon a thrwy ddarparu gwybodaeth am beryglon personol drwy fentrau fel Prynu Gwybodus a lleoliad ffermydd sy'n cael eu heffeithio gan TB.

Mae gennym brofiad saith mlynedd o gynnal profion blynyddol ar wartheg, ac rydym wedi datblygu set ddata helaeth sy'n dangos sefyllfa'r clefyd ledled y wlad. Gwyddom nad yw achosion a lefelau TB yn cael eu dosbarthu'n unffurf ledled Cymru, ac mae ein tîm o gynghorwyr milfeddygol wedi nodi bod patrymau'r clefyd yn wahanol ledled y wlad. Mae'r gwaith hwn yn gwella ein dealltwriaeth o'r ffactorau risg allweddol ac yn golygu bod modd datblygu dull wedi'i dargedu'n well o fynd i'r afael â'r clefyd mewn rhanbarthau gwahanol.

Mae ystadegau cenedlaethol a rhanbarthol manwl ar TB ar gael yn yr Adroddiadau Gwyliadwriaeth Blynyddol. Mae Dangosfwrdd TB Cymru chwarterol yn cyflwyno cyfres o fesurau allweddol sy'n dangos sefyllfa'r clefyd ledled Cymru a chynnydd ein Rhaglen Dileu TB.

Yn ehangach, bydd llwyddiant o ran mynd i'r afael â TB buchol yn cyfrannu at y weledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru drwy bum canlyniad strategol. Mae'r canlyniadau hyn wedi'u rhannu rhwng canlyniadau lle mai ymyriad polisi iechyd a lles anifeiliaid a fydd yn cael y dylanwad a'r effaith fwyaf, a chanlyniadau lle y bydd ymyriadau o'r fath yn cael llai o effaith ond yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at eu cyflawni:

## Effaith Uniongyrchol

- Mae gan Gymru anifeiliaid iach a chynhyrchiol
- Mae gan anifeiliaid yng Nghymru ansawdd bywyd da
- Mae gan bobl ymddiriedaeth a hyder yn y ffordd y mae bywyd yn cael ei gynhyrchu a'r ffordd y mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu

## Effaith Anuniongyrchol

- Mae economi wledig Cymru yn ffynnu
- Mae amgylchedd Cymru o ansawdd uchel

Bydd y broses o ddileu TB yng Nghymru yn dibynnu ar ymdrechion cyfunol y Llywodraeth a diwydiant. Bydd ymrwymiad a chydweithrediad parhaus rhanddeiliaid yn hollbwysig i ddatblygu'r sylfeini a osodwyd yn sgil cyflwyno'r rhaglen yn 2008.

# Gwerthoedd Craidd

Mae Rhaglen Dileu TB Cymru yn seiliedig ar bedair egwyddor allweddol o reoli clefydau heintus:

- **Ei gadw allan** – atal y clefyd rhag cyrraedd y fuches;
- **Ei ddarganfod yn gyflym** – dod o hyd i wartheg wedi eu heintio cyn gynted â phosibl cyn iddynt gael cyfle i heintio eraill;
- **Ei rwystro rhag lledaenu** – symud gwartheg wedi eu heintio'n fuan ac atal y clefyd rhag lledaenu i anifeiliaid eraill;
- **Cael gwared arno** – dileu'r clefyd ar ôl canfod yr haint.

Mae heintiau mewn anifeiliaid yn gallu lledaenu drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:

- anifeiliaid, pobl a pheiriannau'n symud rhwng ffermydd ac o fewn ffermydd
- cyswllt â da byw cymdogion
- heintio gan fywyd gwyllt ac adar
- anifeiliaid yn yfed o afonydd a nentydd sydd wedi'u halogi

Er mwyn mynd i'r afael â'r rhain, byddwn yn defnyddio categorïau ardaloedd gwahanol ledled Cymru i bennu statws a gofynion y clefyd a sicrhau eu bod yn cael eu hategu gan fesurau rheoli cenedlaethol ehangach. Mae'r dull hwn sydd wedi'i dargedu'n well yn ein galluogi i deilwra mesurau rheoli ac atal y clefyd ym mhob un o'r ardaloedd hyn.

Hefyd, bydd y Rhaglen yn defnyddio'r dystiolaeth a'r dechnoleg ddiweddaraf sydd ar gael, gan ddysgu gwersi ohonynt ac o'r ymchwil wyddonol ddiweddaraf o bob cwr o'r byd.

## Rhannu Cymru'n Rhanbarthau

Mae rhannu Cymru yn nifer o "ardaloedd TB" yn adlewyrchu'r angen i gydnabod bod sefyllfa'r clefyd yn amrywio ledled y wlad. Bydd perthnasedd a phwyslais y pedair egwyddor allweddol o reoli clefydau heintus yn amrywio ar sail y blaenoriaethau a nodir yn lleol ym mhob ardal TB.

Mae epidemioleg yn sylfaen i'n dealltwriaeth gynyddol o ffactorau ysgogi lleol. Mae hyn wedi arwain at sefydlu ardaloedd TB sy'n adlewyrchu'r amgylchiadau lleol, a datblygu mesurau a fydd yn gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'r clefyd yn yr ardaloedd hynny.

## Rhaglen sy'n cael ei harwain gan y wyddoniaeth a'r dysgu diweddaraf

Rydym yn mynd ati'n rheolaidd i gyfarfod a gweithio gyda gwyddonwyr, sefydliadau â diddordeb a gweinyddiaethau eraill sydd wedi bod yn ceisio rheoli a dileu TB.

Yn benodol, bu llawer o gyswllt a thrafod â'r Rhaglenni Dileu TB sydd wedi bod ar waith yn Seland Newydd ac Awstralia, ac rydym wedi dysgu gwersi o'u profiad lle bo hynny'n briodol. Yn nes gartref, rydym wedi arsylwi'n ofalus ar y rhaglenni sydd ar waith mewn gweinyddiaethau eraill yn y DU, yn enwedig yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.







# Ein polisiau a'n hamcanion

## Bioddiogelwch

Set o fesurau sy'n ceisio amddiffyn buches yn erbyn dyfodiad a lledaeniad plâu a chlefydau – dyna yw bioddiogelwch fferm. Mae'r ffermwr, a phawb sy'n gweithio ar y fferm neu sy'n ymweld â hi, yn gyfrifol am fiioddiogelwch. Mae modd rhoi'r mesurau hyn ar waith (yn y rhan fwyaf o achosion) yn hawdd ac yn rhad. Mae manteision bioddiogelwch da yn cynnwys:

- helpu i gadw'r clefyd allan
- lleihau lledaeniad posibl y clefyd
- helpu i gadw anifeiliaid yn iach
- lleihau costau atal a thrin y clefyd
- gwella effeithlonrwydd ffermydd.

Nod ein rhaglen yw datblygu a hyrwyddo bioddiogelwch gwell drwy hysbysu'r diwydiant am y manteision a sicrhau bod cyngor ac arweiniad priodol ar gael bob amser i ffermwyr fel y gallant wneud penderfyniadau synhwyrol.

## Cymhwyso Epidemioleg

Bydd ein tîm Epidemioleg TB dynodedig yn parhau i nodi tueddiadau'r clefyd a datblygu mesurau sy'n berthnasol i amodau epidemiolegol rhanbarthau gwahanol o Gymru. Bydd y tîm hwn yn allweddol i asesu llwyddiant mesurau ym mhob Ardal TB ac asesu lleoliad ffiniau'r Ardaloedd TB yn ôl achosion a lefelau'r clefyd.

## Rhannu Cymru'n Rhanbarthau

Bydd y rhaglen yn mabwysiadu dull wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r clefyd mewn ardaloedd gwahanol trwy ddefnyddio mesurau rheoli sy'n seiliedig ar sefyllfa'r clefyd a pherygl. Bydd hyn yn ategu ein mesurau rheoli cenedlaethol ac ymyriadau gyda buchesi.

Bydd yr ardaloedd TB yng Nghymru yn cael eu sefydlu ar sail tystiolaeth epidemiolegol a pheryglon ym mhob ardal. Mae sicrhau dynodiad fel ardal sy'n rhydd o TB yn amcan tymor byr ymarferol ar gyfer rhannau o Gymru, tra bod angen rhagor o ymyriadau mewn ardaloedd

eraill er mwyn lleihau'r clefyd ymhellach. Bydd yr ardaloedd hyn yn agored i newid, a byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o wahanol lefelau'r clefyd ledled y wlad a'r ffactorau risg allweddol wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.

## Prynu Gwybodus

Dylai ffermwyr ystyried risg bob amser wrth brynu gwartheg. Mae Cynlluniau Masnachu Seiliedig ar Risg wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddileu TB mewn gwledydd eraill. Er mwyn helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am iechyd y gwartheg y dymunant eu prynu, byddwn yn cyflwyno Cynllun Masnachu ar sail Risg i sicrhau bod ffermwyr yn arddangos gwybodaeth TB wrth werthu gwartheg. Hefyd, i gefnogi'r polisi hwn byddwn yn hyrwyddo cynlluniau iechyd TB gwartheg achrededig a chael gwared ar y stigma sy'n gysylltiedig â TB, gan annog ffermydd i fod yn agored ynglŷn â'u statws TB.

## Cymorth TB

Rhaglen wirfoddol sy'n darparu cymorth ymarferol a chynhwysfawr ar gyfer ffermwyr a cheidwaid buchesi sy'n cael eu heffeithio gan TB yw Cymorth TB. Mae'n gwneud hyn yn y lle cyntaf trwy ddarparu ymyriadau milfeddygol arbenigol ar wahanol adegau yn ystod achosion o TB. Hefyd, mae'r rhaglen yn cynnig cymorth llesiant personol ac argyfwng ar gyfer ffermwyr unigol a'u teuluoedd sy'n dioddef achosion o TB ar sail hunangyfeirio. Yn olaf, mae'r rhaglen yn cynnig gwasanaethau parhad busnes, mentora a chynghor ac arweiniad gan gynghorwyr busnes arbenigol.

## Buchesi â TB cronig

Byddwn yn ceisio dileu'r clefyd o fuchesi heintiedig mor fuan â phosibl. Er bod y mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith yn ystod achos o TB yn effeithiol yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen defnyddio dull gweithredu gwahanol os nad oes modd datrys yr achos. Mae cyfran fach o achosion TB yng Nghymru yn achosion hirdymor. Mae'r buchesi hyn yn gostus iawn

i'r Llywodraeth a'r diwydiant yn barhaus, ac maent yn peri risg annerbyniol o ledaenu'r clefyd i fuchesi a busnesau eraill yn yr ardal. Bydd y rhaglen yn ceisio lleihau'r amser y mae'r daliadau hyn yn cael eu gosod dan gyfyngiadau drwy glirio'r haint yn gyflym ac yn effeithlon.

Bydd y rhaglen yn targedu achosion o TB nad ydynt wedi'u datrys ac yn cynnwys cynlluniau gweithredu pwrpasol i fynd i'r afael â TB yn y buchesi hyn. Bydd yr ymyriadau ym mhob cynllun yn cael eu targedu'n benodol at y ffactorau risg sy'n unigryw i'r achos penodol, a bydd angen eu rhoi ar waith gyda'i gilydd. Defnyddir rhagor o fesurau i leihau'r haint a lleihau'r perygl o'r clefyd yn lledaenu yn ehangach, adfer statws heb TB daliadau, a lleihau'r costau a'r goblygiadau i drethdalwyr, perchnogion buchesi a buchesi cyfagos.

## Goruchwyliaeth

Mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid i geidwaid gwartheg sicrhau bod profion TB yn cael eu cynnal ar eu gwartheg. Mae pob buches yn cael ei phrofi o leiaf unwaith y flwyddyn (ac eithrio llo sy'n iau na 42 diwrnod oed). Mae gwartheg yn cael eu profi i sicrhau nad oes TB arnynt ac i ganiatáu masnachu buchesi â Statws heb TB Swyddogol. Hefyd, caiff gwartheg eu profi i nodi buchesi sydd wedi'u heintio.

Cymeradwyir dau brawf gwartheg swyddogol gwahanol yng Nghymru:

- y prawf croen twbercwlin
- y prawf gwaed gama interfferon.

Mae'r profion hyn yn canfod ymateb imiwn i TB buchol ac maent yn gallu canfod haint cyn bod gwartheg yn dangos unrhyw arwyddion o salwch. Mae cael gwared ar wartheg sydd wedi'u heintio mor gynnar â phosibl yn lleihau'r perygl y byddant yn heintio eraill. Nid oes unrhyw brawf diagnostig yn berffaith ac nid yw'r naill brawf na'r llall yn gwbl ddibynadwy. Oherwydd hyn, mae'n rhaid i fuchesi sydd wedi'u heintio gael o leiaf ddau brawf clir cyn bod modd codi cyfyngiadau symud. Mae hyn yn lleihau'r perygl y gall anifeiliaid wedi eu heintio sydd heb eu darganfod aros yn y fuchesi.

## Prawf croen twbercwlin

Y prawf croen yw'r unig brawf sy'n cael ei gydnabod ar gyfer dangos statws heb TB swyddogol gwartheg a buchesi gwartheg, felly mae'n cael ei ddefnyddio fel y prif brawf sgrinio. Mae'r prawf yn hynod benodol, ac ychydig iawn o ganlyniadau cadarnhaol ffug a geir ohono. Ar ôl darganfod haint mewn buches, defnyddir dehongliad mwy llym o ganlyniad y prawf nesaf. Mae hyn yn cynyddu gallu sensitifrwydd y prawf i ddarganfod unrhyw wartheg eraill sydd wedi eu heintio. Mae'r prawf croen wedi'i ddefnyddio ledled y byd mewn rhaglenni dileu TB llwyddiannus.

## Prawf gwaed gama interfferon

Defnyddir y prawf gama interfferon i ategu'r prawf croen ac mae'n gallu darganfod haint yn gynt. Wrth ddefnyddio'r prawf hwn ochr yn ochr â'r prawf croen, mae'n gwella'r tebygolrwydd y bydd gwartheg wedi eu heintio yn cael eu darganfod. Mae'n un o'r adnoddau pwysicaf sydd gennym i helpu i ddileu'r clefyd mewn buchesi wedi eu heintio.

Mae angen sampl gwaed i gynnal prawf gama interfferon. Nid yw'r prawf hwn cystal â'r prawf croen ar gyfer nodi gwartheg nad ydynt wedi'u heintio (mae ganddo benodoldeb is). O ganlyniad, pe bai'r prawf hwn yn cael ei ddefnyddio yn lle'r prawf croen, mae yna risg fach y byddai rhai buchesi'n cael eu nodi'n anghywir fel buchesi wedi eu heintio. Oherwydd hyn, nid ydym yn defnyddio'r prawf gama fel y prif brawf sgrinio. Rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer buchesi wedi eu heintio dan amgylchiadau penodol.

- mewn ardaloedd llai heintiedig o Gymru i helpu i atal TB rhag sefydlu ei hun
- mewn ardaloedd lle mae TB yn fwy cyffredin, i helpu i glirio'r haint mewn buchesi yn gynt.

## Archwiliad post mortem a meinweoedd meithrin

Cynhelir archwiliad post-mortem ar garcasau gwartheg i sicrhau ei bod yn ddiogel bwyta'r cig. Mae meinweoedd meithrin microfiologol yn



brawf labordy a ddefnyddir i nodi presenoldeb *Mycobacterium bovis* (TB buchol). Hefyd, mae'n gallu nodi'r union fath o TB buchol. Ond gan nad yw archwiliadau post-mortem a phrofion meinweoedd meithrin yn gallu nodi a yw'r haint yn bresennol bob tro, defnyddir canlyniadau'r prawf gwaed a/neu'r prawf gama i benderfynu a yw buches neu anifail wedi ei heintio.

## Prawf Cyn Symud

Mae profion cyn symud yn ein helpu i nodi gwartheg wedi eu heintio cyn iddynt gael eu symud, gan leihau'r perygl o ledaenu'r haint. Gan ddibynnu ar categori ardal yng Nghymru, bydd angen cynnal prawf cyn symud ar rai buchesi cyn bod anifeiliaid yn cael eu cludo i farchnadoedd a/neu rannau eraill o'r wlad.

## Prawf ar ôl Symud

Gall profion ar ôl symud ddarganfod anifeiliaid ychwanegol sydd wedi eu heintio nad ydynt yn cael eu canfod gan brawf cyn symud blaenorol,

yn enwedig os yw anifail wedi'i heintio ar ôl y prawf neu os oedd yn rhy gynnar i'r prawf nodi bod yr anifail wedi'i heintio. Bydd yn darganfod y clefyd mewn rhai anifeiliaid yn gynt h.y. cyn y byddai'n cael ei nodi yn y prawf rheolaidd nesaf o'r fuches, a all fod hyd at 12 mis i ffwrdd. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd TB yn lledaenu i wartheg eraill yn y fuches nad ydynt wedi'u heintio, ac yn atal y clefyd rhag sefydlu ei hun.

## Adweithyddion Amhendant

Anifail sydd wedi cael darlleniadau rhwng clir (pasio) ac adweithydd (methu) yn y prawf croen twbercwlin – dyna yw Adweithydd Amhendant. Oherwydd bod rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â statws clefyd Adweithydd Amhendant, mae'n rhaid cynnal ail brawf. Mae'n rhaid i ffermwyr ynysu Adweithyddion Amhendant o weddill y fuches ar unwaith er mwyn lleihau'r perygl o ledaenu TB i wartheg eraill yn y fuches ac i fuchesi eraill.



Caiff Adweithyddion Amhendant eu profi eto ar ôl 60 diwrnod, naill ai ar eu pennau eu hunain, neu mewn buches lle canfuwyd adweithyddion hefyd, gyda gweddill y fuches. Mae modd cynnal ailbrofion dehongliad safonol a llym, a phrofion gama interfferon.

Bydd y rhaglen hon yn ceisio cael gwared ar Adweithyddion Amhendant sy'n cael eu darganfod mewn achosion hirdymor o TB mewn buchesi o dan amgylchiadau penodol, ochr yn ochr ag unrhyw adweithyddion, er mwyn lleihau lledaeniad y clefyd.

## TB mewn Anifeiliaid nad ydynt yn Fuchol

Bydd y Rhaglen Dileu TB yn ceisio mynd i'r afael â phob ffynhonnell o'r haint, gan gynnwys mewn gwartheg a bywyd gwyllt, yn ogystal ag anifeiliaid nad ydynt yn fuchol fel camelidau, geifr a cheirw. Mae pob un o'r rhain yn agored i'r haint *Mycobacterium bovis* (*M. bovis*) Yn gyffredinol, maent yn cael eu hystyried yn lletywyr goferus, sy'n golygu eu bod yn annhebygol o gynnal yr haint yn eu poblogaeth eu hunain heb bresenoldeb gwartheg heintiedig neu fathau eraill o fywyd gwyllt heintiedig. Nifer gymharol fach o'r cyfryw anifeiliaid yn unig sy'n cael eu nodi'n anifeiliaid heintiedig bob blwyddyn. Felly, byddwn yn parhau i ddefnyddio dull goddefol o oruchwyllo'r anifeiliaid hyn, gan adolygu'r sefyllfa hon a'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen arnom i fynd i'r afael yn effeithiol ac yn gyflym ag achosion o TB mewn anifeiliaid penodedig nad ydynt yn fuchol.

## TB mewn Bywyd Gwyllt

Mae TB yn gallu heintio mamaliaid o bob math, ac er bod y risg sy'n gysylltiedig â'r rhan fwyaf o rywogaethau gwyllt yn gymharol isel, mae rhai ohonynt yn cael eu hystyried gan arbenigwyr milfeddygol yn "gronfeydd" sy'n gallu cyfrannu at barhad y clefyd. Pan fydd angen, byddwn yn monitro lefelau TB mewn bywyd gwyllt er mwyn sicrhau bod modd dod o hyd i ateb rhesymol a rhesymegol i ddileu'r clefyd a chynnal ac amddiffyn ein rhywogaethau gwyllt yn erbyn lledaeniad yr haint.

## Ystadegau a thargedu

Ein nod hirdymor yw dileu TB buchol yng Nghymru. Er mwyn cyflawni'r nod hwn mor gyflym â phosibl, mae'n bwysig ein bod yn gallu mesur cynnydd mewn ffordd wrthrychol. Byddwn yn pennu targedau uchelgeisiol i fesur cynnydd, a'u cynnwys yn ein cynllun cyflawni. Byddwn yn canolbwyntio ar leihau nifer yr achosion o TB, nifer y buchesi o dan gyfyngiadau, y gyfradd ailheintio a lleihau nifer yr achosion hirdymor. Mae'n hollbwysig cofnodi cynnydd tuag at ein nod o ddileu TB yng Nghymru. Mae'r Dangosfwrdd TB yn cyflwyno data gweledol a chyfres o fesurau allweddol, a bydd yn cofnodi'r broses o ddileu TB bob chwarter.

## Gorfodi

Mae'n amlwg y bydd y broses o ddileu TB yn cymryd llawer mwy o amser ac y bydd yn ddrutach i bawb os yw'r rheolau, y wybodaeth, y cyngor a'r canllawiau a ddarperir yn cael eu hosgoi, eu hanwybyddu neu eu camddeall gan ffermwyr ac eraill sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddileu'r clefyd. Rydym yn ymwybodol bod lleiafrif bach wedi torri'r rheolau yn y gorffennol, gan beryglu eu busnesau eu hunain a thanseilio ymdrechion y mwyafrif. O'r herwydd, byddwn yn parhau i gymryd camau yn erbyn y rhai sy'n gwrthod cydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau sy'n sylfaen i'r Rhaglen. Hefyd, byddwn yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill i gyflwyno mesurau eraill wedi'u targedu i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth, pan fydd yn briodol ac yn ofynnol gwneud hynny.

## Iawndal

Byddwn yn parhau i dalu iawndal am wartheg sy'n cael eu lladd oherwydd TB. Byddwn yn adolygu'r iawndal TB er mwyn ceisio gwella'r dull o'i dalu ac annog perchnogion buchesi i ddilyn arferion gorau.

Am resymau rheoli'r clefyd a rhesymau ariannol, mae'n bwysig osgoi gorbriso gan fod hynny'n cynyddu'r gost i drethdalwyr ac yn lleihau'r cymhelliad i rai ffermwyr osgoi TB. Byddwn yn sicrhau, i'r graddau sy'n bosibl, bod y system sydd ar waith yn cyflawni'r amcanion canlynol:

- system brisio sy'n gynaliadwy, yn hyrwyddo arferion da ac yn helpu i ddileu TB
- system sy'n cosbi ceidwaid gwartheg nad ydynt wedi cydymffurfio â'r rheolau
- iawndal sy'n deg i drethdalwyr ac i geidwaid gwartheg i'r graddau y bo hynny'n bosibl, gan gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru

Byddwn yn ystyried dulliau gweithredu sy'n cael eu defnyddio mewn gwledydd eraill ac ar gyfer clefydau eraill, a all ein helpu i ddiwallu'r amcanion. Bydd hyn yn cynnwys ystyried dulliau eraill o gysylltu iawndal ag arferion da o ran bioddiogelwch a hwsmonaeth. Hefyd, byddwn yn sicrhau bod unrhyw system iawndal yn gallu addasu'n gyflym ac yn gynaliadwy i unrhyw newid sylweddol i fodolau cyllido'r Llywodraeth neu i heriau cyllido ehangach.

## Gwasanaethau Caffael

Byddwn yn parhau i gaffael a rheoli contractau sy'n cefnogi'r Rhaglen Dileu TB. Rydym yn dilyn rheolau caffael cadarn sy'n sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr wrth ddarparu gwasanaethau.

Byddwn yn parhau i gaffael gwasanaethau o natur filfeddygol gan Bartneriaid Cyflenwi Milfeddygol a chyflenwyr milfeddygol eraill, gan gynnwys gwasanaethau profion TB a ariennir gan y llywodraeth ac ymweliadau Cymorth TB.

Mae contractau eraill yn darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chael gwared ar anifeiliaid at ddibenion TB, fel gwerthuso anifeiliaid buchol, lladd anifeiliaid ar y fferm, neu gael gwared ag anifeiliaid i'w lladd mewn lladd-dy.

## Llywodraethu

Bydd y Rhaglen Dileu TB yn parhau i gael ei goruchwylio gan fwrdd rhaglen sy'n cynnwys nifer fach o arbenigwyr sydd â chysylltiad agos â'r diwydiant ffermio. Mae hyn yn sicrhau bod y grŵp yn gallu cadw ffocws clir a gwneud penderfyniadau yn gyflym.

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Dileu TB, byddwn yn parhau i fanteisio ar gyngor ac arweiniad amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r ystod lawn o safbwyntiau. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i nodi dulliau priodol o sicrhau hyn, naill ai drwy strwythurau presennol neu drwy gyflwyno trefniadau newydd a gwell.



## Y Dyfodol

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y naw mlynedd ddiwethaf tuag at ein nod o ddileu TB yng Nghymru. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn mynd i'r afael â'r clefyd hwn er mwyn diogelu dyfodol y diwydiant a gwarchod iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid. Ar ôl gosod y sylfaen, datblygu ein gwerthoedd a chryfhau ein polisiau, erbyn hyn rydym wedi cyrraedd cyfnod pontio a fydd yn mynd â ni'n agosach at ein nod cyffredinol o ddileu TB yng Nghymru.

O eleni ymlaen, caiff y Rhaglen ei gweithredu gan Gynllun Cyflawni sy'n rhan o'r ddogfen gyffredinol hon. Bydd y Cynllun Cyflawn yn cynnwys mesurau a gwelliannau manwl i'w mabwysiadu ar lefel Cymru gyfan, a mesurau a gwelliannau i'w rhoi ar waith ym mhob un o'r Ardaloedd TB.

Mae cyflwyno'r Rhaglen drwy ddefnyddio Cynllun Cyflawni yn arwain at ragor o hyblygrwydd, gan sicrhau bod y Rhaglen yn gallu addasu i'r sefyllfa sy'n newid ar lawr gwlad. Mae'r dull gweithio hyblyg hwn yn ein galluogi i ymateb i wybodaeth newydd a gwybodaeth sy'n dod i'r fei am y clefyd, gan sicrhau bod modd cynnwys gwelliannau'n ddi-oed i adlewyrchu'r wyddoniaeth a'r syniadau diweddaraf.

Bydd llwyddiant y rhaglen hon yn dibynnu ar gyfranogiad a chydweithrediad y diwydiant ffermio, y proffesiwn milfeddygol a phartneriaid cyflawni. Mae hyn yn gwbl allweddol i'r broses o sicrhau bod gan Gymru ddiwydiant ffermio iach, proffidiol a chynaliadwy.

